**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth, Ionawr 13eg 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Gerwyn Davies
Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Gwydion Jones, Gwynfor Davies, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

35.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda.

35.2 COFNODION – tynnwyd sylw at y cofnodion canlynol o gyfarfod 18fed Rhagfyr 2014 a phenderfynwyd eu newid:
a) Cofnod 34.5.1 i ychwanegu 'Wedi trafodaeth **PENDERFYNODD y mwyafrif** gefnogi'r cais.
b) Cofnod 34.3.2 i newid 'nid oedd Aelwyd Bro Cernyw wedi derbyn grant' i '**nid oedd Aelwyd Bro Cernyw wedi ymgeisio am grant'.** Wedi'r newidiadau cynigiodd Diane Roberts ac eiliodd Emlyn Williams a chytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

35.3 MATERION YN CODI
35.3.1 MYNWENT GWYTHERIN Cofnod 34.3.1 - adroddodd Tecwyn Evans ei fod wedi bod yn gweld y fynwent gyda'r contractwr ac y gobeithiai y byddai'r gwaith wedi ei orffen yn fuan.
35.3.2 MEINCIAU NEWYDD 34.6 – roedd Diane Roberts ac Ian Griffith wedi bod yn chwilio am safle yn Llangernyw a PHENDERFYNWYD gosod y fainc newydd yn lle'r un sydd wedi torri yn Stad Glan Collen.
35.3.3 MATERION CYNLLUNIO 34.5 – nid oedd ateb wedi dod i'n ymholiadau – y Clerc i gysylltu.

35.4 ARHOSFAN BWS – derbyniwyd bod angen gwneud gwaith ar yr arhosfan ger yr Ysgol yn fuan. Cynigiodd y Cadeirydd holi am baent pris gostyngedig i'r gymuned ac awgrymwyd y posibilrwydd o ofyn i Aelwyd Bro Cernyw wneud y gwaith.

35.5 MATERION CYNLLUNIO – derbyniwyd ebost gan yr adran Cynllunio ynglŷn a chais 0/39017 Tŷ'r Gof, Llangernyw yn nodi eu bod wedi cymeradwyo'r cynlluniau diwygiedig i'r safle.

35.6 GOFYNIAD PRAESEPT Y CYNGOR A'R GYLLIDEB
Cyflwynodd y Clerc Gyllideb ddrafft a chafwyd trafodaeth ar faterion megis Prisiau'r Fynwent, cynnal a chadw Arhosfa Bws, Toiledau cyhoeddus Llangernyw. PENDERFYNWYD i godi'r gwariant rhagdybiedig ar y mynwentydd i £3200, i beidio cynnwys arian ar gyfer blodau, i godi costau archwilwyr i £330 a llogi ystafelloedd i £250 ac i gadw £500 tuag at y toiledau. Y swm i ofyn amdano yn y Praesept fyddai £9,450 eleni. PENDERFYNWYD i gyfrannu £500 o Gronfa Bro Cernyw tuag at gynnal a chadw y Toiledau y flwyddyn nesaf hefyd.

35.7 CYNGHRAIR CYMUNEDAU CYMRAEG – fe'n hysbyswyd o Gyfarfod Blynyddol y Gynghrair yn Aberystwyth ar Ionawr 17eg www.cymunedau.org

35.8  CYFLWYNIAD AR 'RHYDDID GWYBODAETH' A 'GWARCHOD DATA'
Cafwyd cyflwyniad ar  bwynt pŵer gan Diane Roberts yn dilyn cwrs Un Llais yn Yr Wyddgrug. Deallir bod angen i'r cynghorau cymuned benodi swm a godir am wybodaeth, mae'r cyhoedd yn cael anfon at y Clerc neu'r Cadeirydd am wybodaeth; os oes copïau o geisiadau cynllunio yn meddiant y Cyngor dylem gofrestru â'r ICO (Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth).  Cynigwyd holi am DVD Hyfforddiant gan yr ICO a gwneud copïau o'r senarios.

35.9  MATERION ERAILL
35.9.1  Twrch yn Mynwent Llangernyw.
35.9.2  Yr afon yn bwyta o dan y ffordd ger Sgubor Newydd – posib bod angen bariau diogelwch yno.
35.9.3 Lamp stryd ddim yn gweithio ger Talog, Pentre Isa.
35.9.4 Angen gofyn i gwmni Harlequin beth yw'r datblygiadau gyda'r mast yn Pen y Fron
35.9.5 Allt Bryn Tân, Gwytherin byth wedi ei sgubo.
35.9.6 Stricion gwrych ar ffordd Pandy Tudur – yn arbennig ar hyd ffordd y Fron.
35.9.7  Arwydd wedi troi ger Capel Ainon.

35.10  BILIAU

| | |
|---|---|
| Canolfan Bro Cernyw (hurio, tâl aelodaeth, rhent cwpwrdd) | £62 |
| Cyflog a Chostau Chwarter Clerc | £854.22 |
| Cyllid y Wlad | £6 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion...Elen H Edwards......................  Dyddiad.....28/1/15...............*

Community Council Meeting was held on Tuesday, 13 January 2015 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Gerwyn Davies
Present: Elen H. Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Gwydion Jones, Gwynfor Davies, Cllr Dilwyn O Roberts and Clerk.

35.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare an interest in an item on the agenda.

35.2 minutes - drew attention to the following minutes of the meeting of December 18, 2014 and decided to change them:
a) Record 34.5.1 to add 'After discussion DETERMINED by majority to support the application.
b) Record 34.3.2 to change 'Aelwyd Bro Cernyw did not receive a grant' to 'Aelwyd Bro Cernyw had not applied for a grant'.  After changes  Diane Roberts proposed and seconded by Emlyn Williams and all agreed that the records are accurate.

35.3 MATTERS ARISING
35.3.1 CEMETERY GWYTHERIN Record 34.3.1 - Tecwyn Evans reported that he had been seeing the cemetery with the contractor and that he hoped the work would be completed soon.

35.3.2 NEW BENCHES 34.6 - Diane Roberts and Ian Griffith had been looking for a site in Llangernyw and RESOLVED to set the bench to replace one that had broken in Glan Collen Estate.
35.3.3 PLANNING 34.5 - no reply has come to our enquiries - the Clerk to contact.

35.4 BUS STOP - admitted that work is needed on the bus stop near the school soon. The Chair offered to inquire about discounted rate for the community and suggested the possibility of asking Aelwyd Bro Cernyw do the work.

35.5 PLANNING - email received by the department of Planning regarding 0/39017 Ty'r Gof, Llangernyw indicating they had approved the revised plans for the site.

35.6 THE COUNCIL PRECEPT AND BUDGET
The Clerk draft Budget was presented and discussion on such matters as Cemetery prices, Bus Stop maintenance, public toilets Llangernyw. RESOLVED to change preconceived spending on cemeteries to £ 3200, not to include money for flowers, raising the costs of auditors to £330 pounds and room hire to £250 and retain £ 500 towards the toilets. The sum to ask for in the precept would be £ 9,450 this year. RESOLVED to contribute £ 500 from Bro Cernyw Fund to maintain the toilets next year too.

35.7 WELSH COMMUNITIES LEAGUE - we were informed of the Annual Meeting in Aberystwyth on 17 January www.cymunedau.org

35.8 PRESENTATION ON 'FREEDOM OF INFORMATION' AND 'DATA PROTECTION'
There was a power point presentation by Diane Roberts following a course One Voice Wales arranged in Mold. It is understood that the need for the community council to appoint the amount charged for information; the public can ask the Clerk or the Chair for information; if copies of planning applications are in the possession of the Council it should register with the ICO (Information Commissioner's Office). Training DVD available – need to enquire with ICO and make copies of the scenarios.

35.9 OTHER ISSUES
35.9.1 Mole in Llangernyw Cemetery.
35.9.2 The river eroding under the road near Ysgubor Newydd - possible need for safety barriers there.
35.9.3 Street lamp not working near Talog, Pentre Isa.
35.9.4 Need to ask what are the developments with the company Harlequin re mast Pen y Fron
35.9.5 Bryn Tan hill, Gwytherin never swept.
35.9.6 Hedge cuttings in Pandy Tudur - particularly along the Fron.
35.9.7 A sign near Ainon Capel pointing wrong way.

35.10 BILLS
Canolfan Bro Cernyw (hire, subscription, rental locker) £ 62
Salary and Costs Quarter Clerk £ 854.22
Inland Revenue £ 6

The meeting came to a close at 9.20 pm.
Approved the Minutes ..E.H Edwards............................ .......... Date 28/1/15...........